

Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi arweiniad i golegau, gwasanaethau proffesiynol, staff ac eraill ar yr hyn a ystyrir yn Swyddi Hollbwysig o ran Diogelwch yn y brifysgol.

Cefndir

Mae'n wybyddus bod camddefnyddio alcohol yn effeithio ar farn, cydsymud a chanolbwytio, gan gael effaith ar y corff a'r ymennydd, a gall gael goblygiadau difrifol o ran iechyd, diogelwch a pherfformiad yn y gweithle, yn ogystal â pheryglu pobl eraill.

Gellir ystyried cyflawni rhai tasgau dan ddylanwad alcohol yn annerbyniol oherwydd y tebygolrwydd cynyddol uwch i rywbeth ddigwydd.

Beth yw Tasgau Hollbwysig o ran Diogelwch?

Yn y cyd-destun hwn, Tasgau Hollbwysig o ran Diogelwch yw gweithgareddau neu swyddogaethau lle gall bod dan ddylanwad alcohol gael effaith niweidiol ar ddiogelwch yr unigolyn hwnnw neu eraill y gallai eu gweithredoedd neu gyfarwyddiadau effeithio arnynt. Gall tasgau a swyddogaethau Hollbwysig o ran Diogelwch gynnwys y canlynol:

- i. Goruchwyllo neu gynorthwyo i oruchwyllo myfyrwyr yn y labordy neu wrth wneud gwaith maes
- ii. Arwain grwpiau o fyfyrwyr ar ymweliadau, neu gynorthwyo ar ymweliadau o'r fath
- iii. Gweithredu neu reoli offer, peiriannau, cerbydau, systemau
- iv. Gweithio gyda chemegau peryglus, ffynonellau ymbelydredd (gan gynnwys rhai nad ydynt yn ìoneiddio), cyfryngau biolegol
- v. Gweithio mewn mannau uchel neu fannau cyfyng neu ar safleoedd adeiladu
- vi. Gweithio ar ddŵr neu'n agos ato
- vii. Gweithio gyda phlant
- viii. Gweithio mewn gweithdy, cegin neu waith tir
- ix. Gweithio gydag anifeiliaid
- x. Ymchwilio a rheoli digwyddiadau ac achosion brys
- xi. Gweithwyr unigol

Sylwer, nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

Cyfrifoldebau

Os ydych chi'n ymgymryd ag unrhyw weithgaredd a allai fod yn hollbwysig o ran diogelwch, cynghorir staff ac eraill i beidio â chymryd alcohol neu sylweddau eraill yn ystod oriau gwaith, neu fod yn dioddef oddi wrth eu heffeithiau neu fod dan eu dylanwad. Gellir gweithredu camau disgyblu os canfyddir bod rhywun dan ddylanwad alcohol neu sylweddau.

Camau gweithredu Colegau a Gwasanaethau Proffesiynol

Efallai y dymuna Colegau a Gwasanaethau Proffesiynol nodi mewn swydd-ddisgrifiadau, rheolau lleol, asesiadau risg, polisïau neu weithdrefnau, y gweithgareddau neu'r swyddogaethau hynny y maent yn eu hystyried yn rhai sy'n hollbwysig o ran diogelwch a lle nad yw yfed alcohol yn dderbyniol.

Os oes amheuaeth bod rhywun yn cyflawni swyddogaeth tra dan ddylanwad alcohol neu sylweddau, yna mae'n briodol gofyn i'r unigolyn roi'r gorau i'r gwaith ar unwaith a chyfeirio'r mater at y rheolwr / goruchwyliwr priodol ac, os bydd angen, at y Deon neu Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol.

Rhagor o Wybodaeth

Gwe-dudalen y brifysgol ar yfed yn ddoeth: <https://www.bangor.ac.uk/hss/wellness/alcohol.php.cy>

Mae gan CAIS ganllaw hunangymorth i helpu pobl i yfed llai er mwyn byw'n iachach - www.cais.co.uk

Talk to Frank - Llinell gymorth gyfrinachol i unrhyw un sy'n poeni ynghylch defnyddio cyffuriau - www.talktofrank.com

DAN – Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Cymru – 0808 808 2234 - dan247.org.uk

Drinkaware – www.drinkaware.co.uk

Adfam: Teuluoedd, cyffuriau ac alcohol - www.adfam.org.uk

Dyddiad Cyhoeddi: Mai 2019